Tu mewn Rhagfyr_Tud 8 Mehefin.qxd 19/11/2015 16:01 Page 1


# YR ANGOR

**PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION**

*'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'*

CYF. 37. RHIF 7-8 | RHAGFYR 2015 / IONAWR 2016 | 50c




## Cyfarchion Nadolig 2015 i holl ddarllenwyr Yr Angor

Dymuna Olwen Jackson-Jones NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA i'w ffrindiau yng Ngogledd Cymru a'r Glannau.
*Cleveley Park, Lerpwl*

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA i'n ffrindiau pell ac agos, oddi wrth Blodwen a Sam Prowting.
*Beckenham Avenue, Lerpwl*

Mae Marged Jones yn dymuno NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA i'w ffrindiau i gyd ar y Glannau.
*Maes Ffynnon, Rhuthun, Dyffryn Clwyd*

Dymuna John a Beryl Williams NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA i'w ffrindiau pell ac agos.
*Gwydrin Road, Lerpwl*

Dymuna Meinwen a D. Ben Rees ddiolch am gefnogaeth ddi-ildio Cymry'r Glannau a dymuno NADOLIG BENDITHIOL ar 25 Rhagfyr. 'Nid dan goeden Nadolig y cewch yr anrheg orau. Y mae'n rhy werthfawr i'w chadw yn un lle arall ond y galon.' (anhysbys)

'Gŵyl i roi gwael a'r hen/Calennig dan gelynnen'. Dymuna Sarah Davies, Broadway, Bebington NADOLIG A BLWYDDYN DDA i'w ffrindiau pell ac agos.

**Cydnabod Caredigrwydd a Cyfarchion yr Ŵyl**
Dymuna Mair Powell, West Derby ddiolch o galon i aelodau eglwys Bethel, Cymry Glannau Merswy a chyfeillion o Gymru am eu caredigrwydd enfawr, anhygoel yn dilyn ei damwain. Ni all fyth ddiolch digon i'r cyfeillion annwyl a charedig hyn ac mae'n dymuno iddynt oll NADOLIG DEDWYDD A BLWYDDYN NEWYDD DDA.

## YN Y RHIFYN HWN:


**GOLYGYDD GWADD - NADOLIGAU LERPWL - NEWYDDION O FANCEINION, EGLWYSI BETHANIA, BETHEL, SEION – CYMRY LERPWL A CHYMRY BIRKENHEAD - COFIO GLENYS GRACE WILLIAMS, MEGAN MAY WILLIAMS – HUNANGOFIANT BRIAN THOMAS**

Golygydd Gwadd

# DIOLCH AM DESTUN DIOLCH

***Robin Gwyndaf***

Yn gyntaf oll, canmil diolch am anchwiliadwy olud bendithion Duw a chyfoeth Efengyl y Crist byw; trysor y trysorau. Hyfryd iawn i minnau'r munudau hyn yw cael ceisio rhannu gyda'r darllenwyr mewn un pennill beth o orfoledd y newydd gogoneddus, digyfnewid hwn, a chyhoeddi mewn sicrwydd ffydd fod hi'n 'dymor y Pasg' bob Sul o'r flwyddyn:

**Mae'n dymor y Pasg,**
**Daw'n Bentecost cyn hir,**
**Mae'r Iesu bendigaid**
**Yn cerdded ein tir;**
**Awn nawr i'w groesawu,**
**Cans mae'n dweud wrthym ni:**
**'Pan fo cartre'n y galon,**
**Rwy'n gwrando dy gri.'**

Heddiw, fel ag erioed, mawr iawn yw'r angen am i ninnau bob dydd o'r flwyddyn, bob munud awr o'r dydd, i ymateb o'r newydd i'r gwahoddiad twymgalon hwn; ymateb fel y gallwn ninnau hefyd fod yn gyfryngau i sicrhau bod cannwyll Efengyl Crist yn olau yn ein bywydau ni a bywydau eraill, oherwydd nid oes hafal i'r gannwyll unigryw hon. Am hynny, trysorwn hi, cyfarchwn hi a diolchwn amdani (y tro hwn mewn englyn):

**Er dued ein caledi; – er dy roi**
**Dan lestr draw i losgi,**
**Mae gobaith yn d'obaith di,**
**O, wanwynol oleuni.**

A dyma fy ail destun diolch: myrdd o ddiolch i Olygydd diwyd *Yr Angor* am y gwahoddiad caredig i sgrifennu'r geiriau hyn, ac i bob un o olygyddion eraill ein papurau crefyddol a'n papurau bro am eu cyfraniad cyfoethog hwythau. Yr un modd, fy niolch diffuant i'n gweinidogion a'n clerigwyr oll a phob aelod eglwysig, ac i bawb arall sydd yn eu bywydau bob dydd yn fodd i oleuo cannwyll ac i roi cariad ar waith. Mor fawr ein braint, oherwydd, fel y dywedodd rhywun di-enw bellach: 'Y mae cariad a llawenydd fel persawr, ni allwn eu rhannu ag eraill heb dderbyn ychydig ein hunain.' Meddai R H Jones (1890-1943), o Dal-y-Cefn Uchaf, Pentrellyncymer, Uwchaled a dreuliodd ran helaeth o'i fywyd ar lannau Mersi yntau yn ei gerdd 'Rhanna dy Bethau Gorau':

**Rhyw nefoedd wael yw eiddo'r dyn**
**Fynn gadw'i nefoedd iddo'i hun.**

Ac meddai'r Fam Teresa hithau: 'Efallai na allwn wneud llawer o bethau mawr mewn bywyd, ond gallwn wneud llawer o bethau bychain gyda llawer o gariad.'

A dyma nodi testun fy niolch olaf: i gael gras a nerth i ymgysegru o'r newydd ac i ddyfalbarhau mewn ffydd, diolch – a mwyfwy diolch – am gymorth gweddi. Ceisiais fynegi'r angen beunyddiol hwn mewn cerdd, 'Y Gwahaniaeth', sy'n addasiad o eiriau Saesneg anhysbys a welais ar gerdyn cyfarch:

**Codais yn gynnar un bore**
**A rhuthrais i wynebu'r drin,**
**Roedd cymaint o waith yn fy aros –**
**Dim amser i blygu glin.**

**Ond yna daeth rhwystredigaethau**
**Yn llu i'm poenydio i;**
**'Paham nad yw Duw yn fy helpu?' ymholais.**
**Atebodd: 'Ni ofynnaist ti'.**

**Gobeithiwn weld gardd o brydferthwch,**
**Ond anialwch a welais i;**
**Gofynnais i Dduw am esboniad,**
**Atebodd fi'n dyner: 'Ni chwiliaist ti'.**

**I groesi'r rhiniog i'r gwynfyd,**
**Defnyddiais allweddau di-ri,**
**'Ond O! Pam nad yw'r drws yn agor?', gofynnais.**
**'Fy mab', meddai Duw, 'ni churaist ti'.**

**Heddiw fe godais yn fore,**
**Ac oesaid cyn wynebu'r drin;**
**Roedd cymaint o waith yn fy aros –**
**A rhaid oedd im blygu glin.**

Yn nhymor y Nadolig, y Pasg a'r Pentrecost a phob tymor, boed i ninnau oll y gostyngeiddrwydd i ymostwng mewn gweddi a derbyn yn helaeth o ras ac ysbryd y Crist byw. Ac i'r holl ddarllenwyr ac i'ch teuluoedd, dymunaf i chwi iechyd a phob llawenydd a bendith.

## *Cydnabod Cydymdeimlad*

**LIDDELL:** Dymuna Rhiannon a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a chymorth a gawsom yn ein colled. Diolch am y geiriau caredig - pob un yn drysor o gysur - a diolch arbenning i'r Parch. Ddr. D. Ben Rees a Mrs Margaret A. Williams am eu gwasanaeth gofalus a chywrain.

# CORNEL Y TRYSORYDD

## Rhagfyr 2015 / Ionawr 2016

| | |
|---|---|
| Mr a Mrs Bryan Jones, Hen Golwyn | £21.00 |
| Mrs Enid Hughes Jones, West Derby | £25.00 |
| Mr David Mawdsley, Bodfari | £15.00 |
| Mrs Eirlys Bailey, Woolton | £10.00 |
| Mr a Mrs Iorwerth Williams, Allerton | £10.00 |
| Mr a Mrs Robyn Williams, Caergybi | £25.00 |
| Mrs Beryl M. Jones, Welwyn Garden City | £40.00 |

**Cyfanswm £146.00**

**Roderick Owen (Trysorydd)**

*Coffâd*

# Mrs Glenys Grace Williams

**(1932 – 2015), Penbedw**

**Ar 9 Hydref 2015 ar ôl gwaeledd byr hunodd Mrs Glenys Williams, Prenton, Penbedw, priod hoff Idris Williams a mam annwyl i Robert. Pan feddyliaf am y chwaer annwyl hon, daw tri pheth i'm meddwl. Yn gyntaf fel Cymraes o'r iawn ryw, a fedrai y Gymraeg ar ei thafod, er ei bod wedi ei geni a'i magu ym Mhenbedw. Yr oedd ei thad Cecil Roberts yn ŵr cymeradwy, yn ei waith yn y Mersey Docks and Harbour Board, ac yn hynod o ffyddlon i'r ddarpariaeth a wnaed gan Gymdeithas y WEA ar y Glannau. Deuai i rai o'r dosbarthiadau yr oeddwn i yn gofalu amdanynt, a bu Glenys yn ofalus iawn o'i thad. Collodd ei mam yn ifanc, ac yn wir bu farw ei llysfam mewn rai blynyddoedd a gofalodd hi yn gariadus amdano.**

**Fel ei phriod, a phriodwyd Idris a Glenys ar 7 Rhagfyr 1963, y mae yn ef enghraifft wych o un o Gymry Lerpwl. Bu darpariaethau Capel Cymraeg y Bedyddwyr Woodlands yn gyfrifol hefyd am ei Chymreictod fel ag y bu Capel y Bedyddwyr Edge Lane yn gymorth i'w phriod fod yn Gymro twymgalon.**

**Yn ail fel Bedyddwyr o argyhoeddiad. Llwyddodd Capel y Woodland gael gweinidogion ymroddedig, a rhoddodd Glenys ei chefnogaeth i'r achos ym mhob ffordd. Ar ôl datgoffori yr achos a brofodd yn loes fawr iddi hi a'i phriod, ymaelododd yng Nghapel yr Eglwys Fethodistaidd lle y bu yr arwyl. Cefais gyfle i ddod ag awyrgylch Cymraeg i'r gwasanaeth eneiniedig. Er cau Capel y Woodlands, ni chollodd Glenys a'i phriod ei cysylltiadau gyda'r Cymry trwy yr *Angor* a minnau a Chymru eraill a Bedyddwyr Cymraeg gan y byddai'r ddau yn derbyn llenyddiaeth yr enwad, yn arbennig y papur wythynosol *Seren Cymru*. Gan ei fod yn gwybod am gefndir fy mhriod, fel merch i Weinidog y Bedyddwyr, gofalai'r ddau drosglwyddo y lenyddiaeth hon i'n haelwyd ni. Hyn yn nodweddiadol o'i charedigrwydd Cristnogol.**

**Yn drydydd fel Mam a Phriod ymroddedig. Yr oedd coginio yn un o'i blaenoriaethau, ac fel y tystiai ei thad yng nghyfraith yn aml 'gofalai Glenys i baratoi tamaid blasus'. Bu yn ei blynyddoedd cynnar yn helpu allan yng ngwesty Shaftesbury yn Mount Pleasant, Lerpwl ac wedyn yng Ngholeg Technegol, Penbedw. Dotiai at gŵn, a bu tri ci yn derbyn gofal ar ei haelwyd. Pan ddeuai rhaglenni ar gŵn ar y teledu byddai wrth ei bodd, a gwn o brofiad fod ci teyrngar yn llenwi aelwyd a gwresogrwydd. Dangosodd ddaioni yn ei bywyd ac yr oedd ganddi barch at hanfodion yr efengyl. Gwyddom mai ffrwyth yr ysbryd yw daioni fel y dywed Epistol at y Galatiaid a'r Effesiaid ac fel y cyfryw y mae bob amser yn nodweddu 'plant y goleuni'. Mae'n arbennig o bwysig cydnabod hyn, a gwyddai Glenys Williams fod daioni yn rhodd werthfawr, sydd bob amser yn tarddu o waith yr Ysbryd Glân yng nghalon pobl. Fel y dywedodd y Prifathro R. Tudur Jones:**

**'Ond o weld daioni fel anrheg a roddir inni, ac nid fel camp a gyflawnir gennym, nid yw hunan ddyrchafiad yn bosibl'.**

**Diolchwn am fywyd a gwaith y wraig ostyngedig, ddaionus hon i'w chartref, ei chapel, a'i chymuned. Boed cysur i'w anwyliaid yn ei hiraeth mawr amdani, a chafwyd oedfaon yr arwyl ar 21 Hydref yng nghapel yr Eglwys Fethodistaidd Glenavon Road, Prenton o dan ofal ei gweinidog, y Parchg. Sheila Prest a minnau. Yna aethpwyd i Amlosgfa Landican, ac yno yn ôl am baned i'r Capel lle yr oedd yn aelod ffyddlon iawn.**

**D. Ben Rees**

Myfyrdod

# Y Flwyddyn Newydd sef 2016

gan Elwyn Parry

Hyderaf yn fawr iawn eich bod, gyfeillion annwyl *Yr Angor* wedi mwynhau dathlu pen-blwydd y RHYFEDDOD – Iesu Grist. Hyderaf yn fwy na dim eich bod wedi cydnabod Ef fel CEIDWAD ac mae Ef yn unig all ddiwallu unwaith ac am byth dynged terfynol ein bywydau meidrol ni yr hil ddynol.

Mae Amser yn prysuro ymlaen ac ni ellir ei atal. Bywyd wedyn yn ymddangos fel cylch bach – crud a bedd – cylch na ellir ei dorri nac ychwaith dorri allan ohono. Wrth feddwl am fywyd ac amser bum yn darllen hanes bywyd Dafydd Frenin yn llyfr Samuel. Yn ei gân o ddiolchgarwch fe wnes ddod ar draws cymal sef "ar amserau aeth drosto ef". Cofiaf Parch Cynwil Williams ar ei bregeth yn dweud fod rhai brawddegau ac ambell gymal yn werth ei dweud na'u hesbonio fel "a redodd", "ac efe a dosturidd", "yn ôl ei arfer". Rydw i'n hoffi y cyfeiriad hon am Dafydd. Yma mae un brenin yn mynd a un arall yn dod. Apêl doe ac heddiw a siars y gorffennol i'r presennol. Gwelaf yn y cymal y llanw yn dod dros y traeth a ryw blentyn wedi adeiladu castell tywod ond wedi diflannu "a'i le nid edwyn mwy". Mae llanw'r blynyddoedd fel llanw'r môr yn brawf ar ein sylfeini. Fe ddylem adeiladu ar sylfeini a osodwyd gan ein tadau ac wedyn perffeithio eu llafur gennym ni y plant.

Edrychwch a medddyliwch am "yr amserau aeth drosto ef" yn hanes Dafydd Frenin. Do, fe gafodd lwyddiant ac yn y blynyddoedd cynnar fe gafodd llawer o "droeon yr yrfa" ac fe gafodd adegau o gael ei ymostwng ac ymgysegru. Ond chwarae teg fe wnaeth ymgynhori â Duw CYN ac WEDI unrhyw achlysur. Mor wahanol i ni!!! Nid anghofiodd Dduw ac roedd yn barod i syrthio ar ei fai, ac yn barod i ufuddhau. Ie, rydw yn edmygwr o Dafydd a tybed a awgrymaf yn ormodol y gallwn gymhwyso ei brofiadau i'n hamser ni? Yn ei eiriau olaf i Solomon y mae'n crynhoi ei fywyd ynghyd a gwersi 'a'r amserau a aeth drosto ef' a dweud "Adnabu Dduw dy Dad a gwasanaetha Ef a chalon berffaith a meddwl ewyllysgar canys yr Arglwydd a chwilia'r holl galonnau ac yn deall – pob dychymyg meddyliau". OND sylwch yn fanwl ymateb Solomon – mae'n diolch i Dduw am y trugaredd a ddangoswyd i'w dad ac yn gofyn am yr un peth i'w fywyd ef ei hun ac hefyd am galon deallus i ymdrin a phobl ac i ddeall rhagor "rhwng da a drwg". Gweld pobl rydym O am ras i'w deall!!

Ar ddechrau blwyddyn onid gwell yn lle "Gwnes addunedau fil" ydy gofyn yn ostyngedig iawn yn ein gweddiau am y bendithion a ofynnodd Solomon? Gofyn am drugaredd yn ein bywydau ac am y fendith o galon deallus, sut i ddeall pobl ac yn fwy na dim sylweddoli'r gwahaniaeth rhwng da a drwg. Roedd Taid yn flaenor yn Sân Cler yn y ganrif diwethaf ac yn hoff iawn o emyn David Charles (Cyf. Ff 346) a llawer tro clywais ef yn dweud "'does neb a wyr ond Ef.........pa faint fy nghrwydro o hynny hyd yn awr" ond fe glywodd Taid "a'i hyfryd lais a'm harwain" a'r diwedd bu "Wrth gofio'r daith a'i holl ffyddlondeb Ef: mi seiniai glod i entrych nef y nef". Boed bendith y Duw Hollalluog arnoch ddarllenwyr *Yr Angor* ar hyd 2016 ac ymlaen i ddiwedd y ddegawd.

Tu mewn Rhagfyr_Tud 8 Mehefin.qxd 19/11/2015 16:01 Page 4

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Cafwyd cychwyn bendithiol iawn i fis Hydref. Cynhaliwyd ein Gŵyl Ddiolchgarwch ar y Sul cyntaf a hynny o dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Ddr. D. Ben Rees. Roedd y gwasanaeth Cymun yn rhan o'r diolch hwnnw, y rhodd fwyaf un i'r disgybl. Addurnwyd y capel yn amserol iawn gyda blodau, ffrwythau a llysiau'r maes. Diolch Beryl.

Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd cyfle i gymdeithasu uwch paned o goffi yn y ganolfan Gymraeg.

Y nos Lun ddilynol cynhaliwyd cyfarfod Gweddi Diolchgarwch pryd y cymerwyd rhan gan ddeuddeg o'n haelodau yn moli a diolch drwy ganu, gweddïo, caed darlleniadau o'r Beibl a darnau o farddoniaeth a llenyddiaeth Gymraeg fodern addas ar gyfer gwasanaeth o ddiolchgarwch.

Bore Sul, Hydref 11 cydymdeimlwyd â Mrs Rhiannon Liddell, Wavertree ym marwolaeth ei phriod Bill. Bu'n wael am gyfnod maith a bu gofal Rhiannon ohono yn eithriadol. Cofiwn hefyd am y ddwy ferch a'r mab a'r teulu estynedig yn eu galar. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Springwood, pnawn Mercher, Hydref 14eg am ddau o'r gloch o dan ofal Dr. D. Ben Rees.

Nos Lun, Hydref 12 o dan nawdd y Gymdeithas Lenyddol cafwyd anerchiad diddorol iawn gan y Barchedig Gwenda Richards, Caernarfon ar y testun 'Darluniau'. Mynegodd bod ein bywyd i gyd yn troi o gwmpas darluniau, ac y gwelwn lawer iawn ohonynt bob munud o'r dydd. Gallwn ddarllen bywyd drwy ddarluniau a chofio digwyddiadau.

Cyfaddefodd fod ganddi berthynas agos a hapaus â chamera. Derbyniodd un yn ddeg oed a byth oddi ar hynny mae yn rhan anatod o'i bywyd a'i gweinidogaeth yn Arfon. Mae hi hefyd wrth natur yn gasglwr cardiau post. Gresyn i'r arfer o anfon cardiau brinhau erbyn hyn. Olrheiniodd yr hanes i ni o'r cerdyn moel, syml cyntaf.

Yr hyn a rodd bleser mawr iddi hefyd yw edrych a gwerthfawrogi gwaith arlunwyr gorau'r byd, a'r ffordd y mynegant eu teimladau dwysaf ar ganfas. Noson ddifyr dros ben, ac yn codi awydd ynom i gael cip olwg eto ar hen luniau y teulu. Llywyddwyd yn gartrefol gan Mrs Nan Hughes Parry.

Bore Mawrth, Hydref 20 daearwyd llwch Mr. E. Goronwy Owen, blaenor da a doeth, ym mynwent Allerton. Bu yn deyrngar i Eglwys Iesu Grist ar hyd ei fywyd a gwnaeth ei waith fel arweinydd ym myd y Cymry a thrysorydd Capeli Garston, Bethel a Bethania yn llawen. Roedd y gwasanaeth i'r teulu'n unig o dan ofal ei weinidog y Parchedig Ddr. D. Ben Rees.

Yn y ganolfan Nos Lun, Hydref 26ain cafwyd sesiwn ar y cwestiwn – "Pam fod pregethwyr ddoe yn hoff o ffugenwau a phregethwyr heddiw yn ymwadu'n llwyr?" a hyn dan ofal Dr. D. Ben Rees.

Mae ganddo, meddai ddiddordeb mawr mewn enwau pobl, ac yn arbennig felly enwau pregethwyr ar hyd y degawdau. Os edrychwn yn ôl ganrif neu ddwy roedd rhieni Cymru yn dewis enwau Beiblaidd i'w plant a chan obeithio y byddai tueddiad wedyn i rai o'r bechgyn fynd i'r weinidogaeth. Dywedodd fod mwy o weinidogion hefo enwau Beiblaidd nac mewn unrhyw swydd arall. Roedd enw Beiblaidd yn golygu llwyddiant! Boed hynny fel y bo. Enwyd llawer o weinidogion gan y gynulleidfa ac awgrymwyd mai ffasiwn y cyfnod ydoedd a'r teuluoedd yn fwy golau yn ei Beiblau a'r diwylliant Beiblaidd yn gyfarwydd. Erbyn hyn mae llawer iawn eisiau cael eu hadnabod hefo ffug-enwau yn hyytrach nag enw bedydd, a hynny yn fwyaf arbennig ym myd beirdd a llenorion. Y ffugenw yn troi yn enw. Cafwyd llawer o enghreifftiau, yn cynnwys beirdd Lerpwl, fel Gwilym Deudraeth, Pedog a Llanowain. Noson hwyliog dros ben oedd hon, a llawer o chwerthin wrth geisio rhoi ateb i gwestiwn mor anghyffredin. Chwerthin yw'r ffisig gorau ar gyfer y gaeaf.

## Cymdeithas Cymry Manceinion

Ar nos Wener, Hydref 9fed, croesawyd Dr Pat Williams Lerpwl i gyfarfod cyntaf y Gymdeithas eleni. Mrs Dilys Ebbs oedd y llywydd. Nid dyma'r tro cyntaf i Dr Pat ddod atom a balch oeddem i gael ei chwmni unwaith eto. 'Dyrnaid o artistiaid Cymreig' oedd testun ei hanerchiad. Rydym wedi cael aml i ddarlith ar feirdd a llenorion ond dyma'r tro cyntaf inni wrando ar a gweld gwaith ein hartistiaid ni o Gymru: Richard Wilson, Thomas Jones, Christopher Jones ac yn fwy diweddar Augustus a Gwen John. Mae eu gwaith wedi'u harddangos mewn sawl Amgueddfa – y Lady Lever Gallery ar y Wirral, y National Gallery yn Llundain ac mewn amgueddfa yng Nghaernarfon. Noson ddiddorol iawn a da gweld cystal nifer wedi troi i mewn. Edrychwn ymlaen at groesawu Dr Goronwy Wynne Licswm ym mis Tachwedd.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Braf oedd cael cwmni y Parchedig David Owens, Ponciau a gweinidog bro Dyffryn Ceiriog ar Sul olaf mis Hydref. Dymunir yn dda ar ei ymddeoliad diwedd y flwyddyn a siawns y cawn mwy o'i gwmni ar y Glannau yn y blynyddoedd nesaf hyn. Teithiodd John P. Lyons i'n cynrychioli fel eglwys yn Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain a gynhaliwyd ar bnawn a nos Fercher, 23 Hydref yng nghapel Noddfa, West Didsbury. Y bore cyn hynny, yn blygeiniol, bu ef a'n Gweinidog o flaen Adeilad yr *Echo* ar lan afon Merswy am 7.45 y bore yn cyflwyno atgofion o foddi Cwm Tryweryn 50 mlynedd yn ôl. Daeth y newydd am farwolaeth Miss Megan Williams i ni, a chofiwn am ei ymweliadau â'n heglwys, a chafodd wasanaeth cofiadwy ar fore Llun, 2 Tachwedd o dan ofal dau a fu'n ofalus ohoni, y Parchedig Eleri Edwards a'n Gweinidog. Yr oedd eneiniad ar y cofio a chyflwynwn i'w ffrindiau a fu mor ofalus ohoni ein cofion Cristnogol o eglwys Bethania.

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Da gweld un o'n ffyddloniaid pennaf Miss Megan Roberts yn ôl yn ein plith ar ôl ei damwain ac yn gwerthfawrogi yn fawr ymweliadau dwy o ymwelwyr Seion, sef Mrs Eunice Powell a Mrs Phylis O'Neill. Dyma waith pwysig mewn eglwys di-fugail. Braf oedd gweld y Parchedig Vic Edwards, cyn-genhadwr, yn llenwi bwlch ym mhulpud Seion ar fyr rybudd. Daliwn i gofio ei neges yn yr oedfa yn absenoldeb y Gweinidog oedd wedi ei daro, rwy'n deall, yn wael.Y mae cael doniau o'r fath yn gysylltiedig a Seion yn hwyluso'r dasg i'r blaenoriaid. Symudwyd un arall o'n haelodau anwyl, Mrs Megan Evans o'r Ysbyty ar ôl bod yno am naw wythnos a derbynia yn awr ofal yn Edgerton Park, Rock Ferry. Y mae Miss Dilys Askew (Wallasey) wedi cael *laser treatment* ond yn brwydro yn ddyddiol hefo poen dirdynnol arthritis. Caiff bob gofal gan ei merch Gill. Cydymdeimlwn a'r Cymro da, Mr Idris Williams a'i fab yn y brofedigaeth sydyn o golli priod hoff a mam annwyl Mrs

Tu mewn Rhagfyr_Tud 8 Mehefin.qxd 19/11/2015 16:01 Page 5

Glenys Williams. Daeth Dr D Ben Rees i gymeryd rhan yn yr arwyl a chynrychiolid Seion gan Mrs Sarah Davies, Bebington a'i merch. Dymunaf fel gohebydd Seion Nadolig Dedwydd i bawb a ddarllena y golofn hon. Diolchaf hefyd i'm brawd Goronwy Humphreys a'r mab Alan am drosglwyddo fy nodiadau dros y we i ofal y Golygydd ffyddlon.

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Ein dysgwyr a ddaeth i'm diddori ar Hydref l0fed, yng ngofal Neil Wyn Jones a Tom Thomas. Mae'r cyfeillion hyn bellach yn rhan werthfawr a ffyddlon o'n Cymdeithas a mawr yw ein dyled i Neil a Tom sy'n gweithio'n ddyfal gyda'r dysgwyr brwdfrydig. Cyn gwrando ar sgets, Parti Cilgwri, cawsom amlinelliad gan Neil o sefyllfa addysg Cymraeg i oedolion, a'r newidiadau sy'n digwydd. Oherwydd toriadau cyllid mae un corff yn gyfrifol am Gymru gyfan, "Canolfan dysgu Cymraeg Cenedlaethol". Bydd llai o ddosbarthiadau ac felly mae cystallu rhwng y tri gwahanol rhanbarth yn y gogledd am fyfyrwyr. Mae'r galw am wersi Cymraeg yn dal yn gryf, yn enwedig yn y gogledd Ddwyrain – sef Wrecsam a'r Wyddgrug a Phenbedw wrth gwrs. Mae parti Cilgwri yn llwyddianus iawn mewn cystadleuthau sgetsys; eto eleni wedi llwyddo yn Eisteddfod Y Dysgwyr yn Theatr Clwyd, ac felly wedi ennill lle di-dal yn Eisteddfod Meifod, a chael y wobr gyntaf yno hefyd.

Cawsom wedi eu sgets buddugol – gwesty'r "bur hoff bau" a'r hwyl a gaed drwy gamddeall a chamgymeriad ymysg yr ymwelwyr. Llongyfarchiadau i'r cwmni a llwyddiant eto y flwyddyn nesaf.

Yna cawsom sgwrs gan Tom ar "Yr hen Iaith" gydag amlinelliad o hanes a datblygiad ein hiaith drwy gyfrwng ein barddoniaeth, gan ddechrau gyda Taliesin a Aneirin a Dafydd ap Gwilym a'i ganeuon am Urien yn ei lyfr yn y drydydd ganrif ar ddeg. Darllenwyd engreifftiau o'i iaith gan fyfyrwr Tom, i ddangos mor gyfarwydd yw llawer iawn o eiriau y beirdd cynnar i ni heddiw.

Yn ei diolchiadau, mynegodd Llwynwen Fitzpatrick ein gwerthfawr-ogiad brwd o sgwrs addysgol Tom, a brwydfrydedd a llwyddiant Neil a'i fyfyrwyr. Llywydd y noson oedd y Barch Glenys Wilkinson a Terry oedd yn cyfeilio.

Mae gallu ambell i siaradwr i ddweud stori yn amlwg mewn munudau, ac mae cariad at gynefin a theulu yr un mor amlwg yn eu storiau. Gŵr felly yw Gwynfor Lloyd Jones a ddaeth atom o Ruthun ar Hydref 26ain. Bu Gwynfor yma ddwy flynedd yn ôl yn cyflwyno parti canu o'r ardal a phleser oedd cael ei groesawu'n ôl fel siaradwr gwadd. Teitl ei sgwrs oedd, "Fy Nhaid, fy nhad a minnau" – darlun o deulu ac amgylchedd cymdeithasol hyfryd. Ar ddechrau ei sgwrs talodd Gwynfor deyrnged arbennig i'w ewythr Bob Jones, gyda chofion tyner iawn ohono, a dyled y teulu iddo dros y blynyddoedd.

Cawsom ddarlun manwl o daid Gwynfor, William Jones, fferm Pen-y-Graig, Rhewl, arbenigwr mewn magu a phrynu ceffylau gwedd a merlod – yn wir, y mwyaf llwyddianus yng Ngogledd Cymru yn ei amser. Roedd ganddo gwsmeriaid, yn ffermwyr a diwydiannwyr cyn belled a Lerpwl a Manceinion a chanddo enw fel deliwr gonest, cywir a theg gyda gwybodaeth reddfol o'r ceffylau. Cawsom hanesion difyr am William Jones a darlun o fywyd cefn gwlad Cymru yn y ganrif ddiwethaf. Mae'n amlwg fod y teulu yn llwyddiannus, yn hapus, ac yn fawr eu parch yn y gymdeithas.

Tad Gwynfor, ar ochr ei fam, oedd Ifan Lloyd Jones, Craig Isa, ac yntau hefyd yn magu a gwerthu ceffylau a merlod. Roedd blynyddoedd cynnar Ifan yn

# RALI GENHADOL YM MANCEINION

Ar brynhawn Sadwrn 3ydd Hydref, pleser oedd cael croesawu Anna Jane Evans o Gymorth Cristnogol i'n plith i siarad yn ein Rali Genhadol. Mae'n cysylltiad ag Anna Jane yn mynd yn ôl gryn dipyn o flynyddoedd ers pan oedd yn efrydydd yn y brifysgol ym Manceinion.

Cafwyd gwasanaeth agoriadol gydag aelodau Noddfa Oaker Avenue ac Altrincham yn cymryd rhan. Mae'n diolch i aelodau Altrincham am groesawu'r Rali eleni. Dameg distewi'r storm yn Efengyl Marc oedd thema ei hanerchiad, y pysgotwyr mewn panic yn y storm a'r Iesu yn cysgu. Pam oedd pysgotwyr profiadol a chryf yn ofni'r math storm tybed? Roeddan nhw yn arfer mynd allan i bysgota ac wynebu tywydd garw ar y llyn o hyd? Efallai, meddai Anna Jane, bod eu hofn yn codi o fynd i ardal y cenedl-ddynion, i ardal elyniaethus a phobl yno yn gwrthwynebus i Iddewon ac yn casau neges yr Iesu. Mewn gair, cyffelybwyd eu helynt â storm ysbrydol wrth iddynt fynd allan o'u '*comfort zone*.' Y pryder yn eu calonnau yn adlewyrchu storm y mor.

Anaml ydym ni yn wybebu'r storm ysbrydol, am nad yw yn gyfforddus i wynebu'r storm hwnnw - fe'i lleihawyd er mwyn osgoi'r perygl a'r diflastod. Nac anghofiwn fod Iesu yn dal yn y cwch ac yn ein herio ninnau heddiw i ddangos cariad Duw ei hun yn ein byd a bod yn ffyddlon i Iesu yn ein bywydau. Neges amserol i ni. Roedd lluniau trawiadol iawn o Gaza yn addurno wal y capel, lluniau a dynnwyd gan fachgen un ar bymtheg oed. Wynebau poen a thristwch yn peri inni feddwl a dyheu am fyw mewn heddwch. Cawsom brynhawn cofiadwy iawn a chyfle i sgwrsio dros baned o de. Diolch Anna Jane am ddod atom unwaith eto.



***Parch Eleri Edwards, Eflyn Evans, Anna Jane Evans a Mair Swift***

anodd: lladdwyd ei dad mewn damwain beic a mabwysiadwyd y plentyn gan deulu yn Llanhaearn oherwydd tlodi ei fam. Cafodd gartref gariadus sefydlog ganddynt a pherthynas agos ar hyd ei oes, ond gyda cholled arall pan laddwyd mab y teulu, "ei frawd mawr" yntau yn cael ei ladd mewn damwain beic. Pan yn ddeg oed aeth yn was fferm – yn cerdded un milltir ar ddeg i droi un acer gyda'r wedd. Cafodd amryw o brofiadau digon anymunnol gyda'i gyflogwyr nes cael gwaith gyda'r Comisiwn Coedwigaeth cyn cael ei dderbyn i goleg Llysfasi ac yno, cyfarfod a'i wraig ac ennill tad yng nghyfraith heb ei ail – a gwaith wrth ei fodd gyda cheffylau a merlod.

Yna, ychydig o hanes Gwynfor ei hun a ddilynodd yn ôl traed tad a thaid gyda busnes ceffylau gwedd a merlod mynydd o'i fferm yn "Craigadwy wynt" ger Pwllglas. Wedi gwaeledd, a thriniaeth yn Broadgreen mae bellach wedi trosglwyddo'r busnes i'w ŵyr a'i nai ond yn dal i fagu merlod mynydd. Cafwyd noson hyfryd, yn mwynhau ffraethineb Gwynfor, ei allu fel storiwr a'i falchder a'i gariad at ei deulu a'i gynefin.

Gwnaed y diolchiadau gan Terry O'Neill gan gyfleu ein pleser am noson hwyliog, gartrefol.

## Cyfarfod yr Henaduriaeth ym Manceinion

Roedd yn achlysur arbennig i ni i groesawu Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain ar Hydref 21 yn Noddfa Oaker Avenue. Digwyddodd hyn am fod Mr Elwyn Evans yn llywydd yr Henaduriaeth eleni a'r arferiad yw i gynnal un Henaduriaeth yng nghapel y llywydd. Cafwyd paratoadau brwdfrydig gan aelodau'r capel ac roedd y Noddfa yn gynnes ac yn groesawus pan ddaeth y gwesteion erbyn yr oedfa Gymun am 3 o'r gloch.

Gweinyddwyd y Sacrament gan y Parch Dafydd Owens a chlywsom bregeth bwrpasol ar destun o'r Llythyr at yr Hebreaid, am aberthau'r Hen Destament yn cael eu cyflawni gan aberth mawr Iesu unwaith am byth ar y groes. Roedd yn orig dawel a bendithiol gyda'n gilydd o gwmpas y Bwrdd Sanctaidd ac yng nghwmni'r Arglwydd.

Wedyn yn drefnus aeth pawb i nôl cwpanaid o de a lluniaeth ysgafn cyn yr eisteddiad am 4.15. Oherwydd y bws, roedd angen dod i ben efo'r busnes erbyn 6 o'r gloch ac yn wyrthiol fe lwyddodd y Llywydd a'r Ysgrifennydd gweithgar i wneud hynny. Diolch iddynt ond diolch hefyd i aelodau'r Henaduriaeth am geisio darllen yr holl adroddiadau o flaen llaw er mwyn cwtogi a hwyluso'r cyfarfod.

Roedd yn fraint i ni groesawu'r Henaduriaeth i'n plith. Brysiwch yma eto!

---

*Coffâd*

# Miss Megan May Williams

## (1927 – 2015), Crosby

**Ar Sadwrn, 24 Hydref yng nghartref henoed Avenswood yn Blundellsands hunodd Miss Megan Williams ar ôl cystudd hir a hithau wedi cyrraedd yr oedran o brin i 88. Yr oedd hi'n gymeriad unigryw, a wybu am lesgedd corff ond yn gryf fel person, ac a lwyddodd i oresgyn anawsterau dybryd trwy ei ffrindiau cywir a ffyddlon.**

**Cymro Cymraeg oedd ei thad a'i mam yn Saesnes, ef yn hannu o Fachynlleth a hithau o Bedford. Cyfarfu'r ddau pan oedd ei thad yn gwasanaethu gyda'r Ffisiwlwyr Cymraeg yn Bedford. Ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf priodwyd y ddau a symudwyd i bentref glan y môr y Borth ger Aberystwyth. Ond methodd ei Mam a dygymod a bywyd pentref ac felly symudwyd yn ôl i Bedford. Yno y ganwyd Megan Williams ond ganwyd ei brawd David yng Nghymru ac eiddigeddai am hynny.**

**Ond Machynlleth a Maldwyn oedd ei chartref ysbrydol, a soniodd wrthyf lawer gwaith am Ddyffryn Dyfi ac yn arbennig yr hyfrydwch o gael aros yn Abercegir, pentref hardd odiaeth lle y byddai Paddy a Paul yn ei chroesawu yn ôl at ei gwreiddiau. Gofalai un o'i ffrindiau Gillian ei gyrru yn y car a mynd a hi o amgylch ffyrdd cul Maldwyn ac i weld hyfrydwch y bröydd.**

**Nid teulu dosbarth canol oedd ei theulu ond gwelwyd ynddi allu anhygoel, enillodd ysgoloriaeth i Ysgol Uwchradd i Ferched yn Bedford. Ac oddi yno enillodd Ysgoloriaeth Agored i Goleg Newnham ym Mhrifysgol Caergrawnt i astudio'r clasuron. Yn y Brifysgol ymaelododd yn y Gymdeithas Gymraeg, y Mabinogion, a dechrau o ddifrif ar ddysgu Cymraeg. Yr oedd ei thad wedi ei blesio'n arw ond bu farw yn sydyn yn ystod ei blwyddyn gyntaf fel athrawes. Ailgyneuwyd y fflam pan apwyntiwyd hi yn Bennaeth Adran y Clasuron Ysgol Merched Merchants Taylor yn Crosby. Tystia Dr. Pat Williams a fu yn aelod o'r Adran ei bod hi yn Bennaeth rhagorol ac yn cyfathrebu gyda'r staff ar bob achlysur. Dangosai'r merched barchedig ofn ohoni, ond cadwodd nifer ohonynt gysylltiad â hi am flynyddoedd. Ond bu'n rhaid iddi ynghanol ei gwaith wynebu ar drawiad a'i gadawodd yn ddiffrwyth am weddill ei oes ar yr ochr chwith. Bu'n rhaid iddi gymeryd ymddeoliad cynnar er gofid i'r Ysgol a cholled i'r Clasuron. Ond ar ôl cryfhau manteisiodd ar ei rhyddid i fynychu Dosbarthiadau ffrind mawr iddi, Mrs Mynie Jones i astudio llenyddiaeth Ffrangeg, i ymweld ag amgueddfeydd Ewrop, yn arbennig yr Eidal a Groeg gyda'i ffrind Dilys Jones, Penbedw. Gyrrai Dilys y car a Megan yn y nawfed nen yn cael yfed o ffynhonnau y Clasuron. Bu yn ffyddlon i eglwys a chapeli yn Crosby ond darganfu ei chartref ysbrydol yn eglwys Bethania, Crosby Road South. Golygai'r emynau bopeth iddi, darllenai'r Beibl yn y Gymraeg, yr oedd y bregeth yn aml yn anodd iddi ddilyn y rhediad. Ei hoff raglen teledu oedd 'Song of Praise' ac yn dilyn 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol' ar S4C, a dyna oedd y 'menu' ar gyfer nos Sul. Cerddai yn gyson o'r Capel ar fore Sul yn ôl i'w chartref ym Mersey Road a daethom ym Methania i'w anwylo er nad oedd yn rhy hoff o faldod!**

**Gwelsom garedigrwydd ar waith yn y blynyddoedd diwethaf. Mynie Jones yn delio a materion ariannol, Eric yn ymarferol ei law o fewn y cartref, Dr. Pat Williams yn gofalu amdani fel pe baen fam iddi, a Gillian yn ei chludo am apwyntiadau'r Ysbyty ac i Gymru, a'r Parch Eleri Edwards yn nyddiau y Gaplaniaeth yn ymweld yn gyson â hi. Bu bywyd yn drafferthus y bum mlynedd diwethaf, a llawer tro mynegodd ei dyhead o gael ei rhyddhau o gorff o glai i dderbyn y bywyd gogoneddus sydd ar gyfer pobl Dduw yn y nef. Credai yn angerddol yn y bywyd tragwyddol. Ond yr oedd yn derbyn cysur yn ei chaethiwed oherwydd ei ffrindiau da. Wrth ei gwely ceid gyfrol Gymraeg 'Wrth Orsedd Gras', a golygai gweddi yn y ddwy iaith gymaint iddi.**

**Bu'r arwyl o dan fy ngofal a'r Parchedig Eleri Edwards ar fore Llun, 2 Tachwedd yn Amlosgfa Thornton. Gellid dweud yn gwbl ddiffuant amdani: 'Hi a ymdrechodd ymdrech deg, hi a redodd yr yrfa, hi a gadwodd ei ffydd'. Boed y goleuni tragwyddol arni.**

**D. Ben Rees**

# CYMDEITHAS CYMRY LERPWL

## lluniau gan John G. Williams

Ar y nos Nos Fawrth olaf o fis Medi cawsom noson ddiddorol iawn yng nghwmni Bethan Wyn Jones yn sôn am fywyd gwyllt arfordir Môn. Mae Bethan yn awdur sawl llyfr, yn golofnydd yn y *Daily Post*, yn ddarlledwraig a'i phrif ddiddordeb yw planhigion. Yn ei sgwrs aeth a ni ar hyd llwybr arfordir Môn sydd yn 125 o filltiroedd o hyd. Fe



***Bethan Wyn Jones a Monwyson Lerpwl - D. J. Williams, Enid Pierce Hughes a Carys Jones***

ellir cerdded y llwybr mewn pythefnos ond fe gymerodd dipyn yn hirach iddi hi ei gerdded. Cychwynodd ei thaith yn Nhraeth Coch ar ochr ddwyreiniol yr ynys a cherdded am Benllech a Thraeth Bychan ac yna ar hyd Gogledd Môn ymlaen am Gaergybi ac yna ar hyd ochr dde yr ynys i'r Borth a Biwmares. Yr oedd ganddi sleidiau ardderchog yn dangos lluniau o blanhigion, adar, anifeiliaid, y môr a llefydd o ddiddordeb. Yr oedd ei sgwrs yn danogos y newidiadau sydd i'w cael ar hyd y llwybr yn ystod pedwar tymor y flwyddyn. Cawsom wybod yr enwau Cymraeg am y bywyd gwyllt. Misoedd Mai a Mehefin yw'r adeg gorau o'r flwyddyn ganddi i gerdded y llwybr i weld trysorau byd natur. Gobeithio fod y sgwrs arbennig yma a'r lluniau wedi codi awydd yn rhai o'r gwrandawyr i fynd i gerdded y llwybr y flwyddyn nesaf.

Ar y nos Fawrth gyntaf yn Hydref cawsom noson hwyliog yn llawn chwerthin yng nghwmni Dilwyn Morgan o'r Bala. Yn enedigiol o Garn Fadryn ym Mhen Llŷn, roedd ei dad yn weithiwr coedwigaeth a'i deulu yn cadw ymwelwyr yn yr haf. Pobl yw'r unig rai ar y blaned sydd yn chwerthin ond nid yw pawb yn chwerthin am yr un peth. Gallwn chwerthin i blesio, pan yn nerfus, neu i gael rhyddhad o ryw sefyllfa llawn tensiwn. Soniodd am deithio sef taith bywyd ac am y pethau doniol a ddigwyddodd iddo – yr hwyl gafodd plant Ysgol Llaniestyn pan yn mynd i lân y môr Tudweiliog yn yr haf a chawsom glywed am y wisg nofio y bu i'w nain ei gweu iddo pan oedd yn 7 mlwydd oed! Clywsom am y troeon trwstan ar y beic modur a brynodd gyda'i gefnder ac am ei fywyd yn y Llynges. Mae yna ddywediad yn Saesneg '*Laughter is the best medicine'* – cawsom ddogn helaeth o ffisig i godi ein calonnau ar y noson yma.

Yr wythnos ganlynol cafwyd hanes Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog yng nghwmni John Dilwyn Williams. Mae ef wedi ymddiddori yn yr hen deuluoedd oedd yn byw yn Arfon a Phen Llŷn ac wedi casglu stôr o wybodaeth amdanynt. Adeiladawyd Plas Glyn y Weddw yn 1856/57 i'r Fonesig Elisabeth Love Jones-Parry, gweddw Syr Love Jones-Parry, sgweier Plas Madryn. Roedd Plas Madryn yn ymyl Garn Fadryn a teulu y Plas oedd tirfeddiannwyr mwyaf Pen Llŷn yn 19eg ganrif. Dinistrwyd y Plas yn fwriadol yn ystod 1960'au oherwydd ei gyflwr gwael a heddiw dim ond yr hen gatws sy'n sefyll. Cynlluniwyd Plas Glyn y Weddw gan Henry Kennedy, pensaer Eglwysig o Fangor a dewiswyd lleoliad i adeiladu oedd yn agos at y môr. Bwriad y Fonesig Love Jones-Parry oedd mynd i fyw i Blas Glyn y Weddw wedi marwolaeth ei gŵr a phan briodai eu mab Thomas, sef etifedd Plas Madryn ond ni wnaeth ef briodi hyd 1887. O ganlyniad ni wnaeth ei fam fynd i fyw i Plas Glyn y Weddw ond hoffai deithio yna yn rheolaidd o Blas Madryn. Mae llawer o ffenestri gwydr lliw ym Mhlas Glyn y Weddw sydd yn dangos arbeifsiau sawl teulu. Pan adeiladawyd y Plas roedd gan y Fonesig Love Jones-Parry gasgliad celf personol mewn 10 ystafell yno. Bu hi farw yn 1880 ac etifeddwyd y ddwy stad gan ei mab Thomas Love Duncombe Jones-Parry. Dyma'r dyn a adawaodd yn 1862 am Batagonia gyda Lewis Jones i weld a oedd yn bosibl creu Gwladfa Gymreig yno. Galwyd y bae ble y glaniwyd yn Porth Madryn. Dirywiodd y stâd wedi i Thomas ei hetifeddu ac fe aeth i ddyled fawr. Bu rhaid cynnal sawl arwerthiant i geisio talu y ddyled. Yn 1896 fe brynwyd Plas Glyn y Weddw gan Solomon Andrews, dyn busnes o Gaerdydd am £7000 ac yn 1897 cafodd y lle ei agor fel Oriel Gelf. Yn ystod y cyfnod yma roedd gan Solomon Andrews arddangosfa barhaol o luniau yno. Wedyn bu'r Plas yn Goleg Amaethyddol ac yn ystod yr Ail Rhyfel Byd cymerwyd y lle drosodd gan Fyddin y Tir. Wedi'r rhyfel fe werthwyd y casgliad o luniau. Yn 1947 fe brynwyd y lle gan Alfred J Clark – bu ef farw yn 1955. Rhannodd y lle i fyny yn fflatiau a thai. Yn 1979 cafodd Plas Glyn y Weddw ei brynu gan Dafydd a Gwyneth ap Thomas ond 'roedd y lle mewn cyflwr gwael iawn. Gwnaed llawer o waith ganddynt i wella yr adeilad a chafwyd nawdd o Gronfa Treftadaeth y Loteri. Mae'r Oriel yr un hynaf yng Nghymru ac yn 2007 dathlwyd bodolaeth yr Oriel am 150 o flynyddoedd. Gobeithio y bydd y sgwrs yma yn ysbrydoli llawer ohonom i fynd yno.



***Dilwyn Morgan yn ei afiaith***




***Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog***

Yn y cyfarfod olaf cyn haner tymor cawsom noson yng nghwmni Beryl Griffiths yn sôn am dri o deuluoedd gyda chysylltiadau â Llanwuchllyn a adawodd Gymru am Batagonia ar y llong 'Mimosa'. Aeth Gruffudd a Mary Hughes gyda'u dau fab a merch a brawd Gruffudd, sef John a'i wraig Elisabeth. Bu farw merch Gruffudd a Mary Hughes, Myfanwy, ar ddiwedd y daith ar y Mimosa a'i chladdu oedd gorchwyl gyntaf yr arloeswyr wedi glanio ym Mhorth Madryn.Yr ail deulu oedd Teulu Cambrian sef John Roberts a Mary Puw gyda'u plant! Yn 1885 'roedd Dafydd Roberts (un o'r plant) yn o'r cwmni a aeth i chwilio am Gwm Hyfryd ac i geisio sefydlu cymdeithas wrth droed yr Andes yn Esquel a Threfelin. Y trydydd teulu oedd Teulu Dôl Fawr, Llangower sef Dafydd a Catherine Jones a adawodd am Batagonia ym 1882. Aethant hwy i fyw yn Nhîr Halen. Mae Beryl Griffiths wedi selio ei gwaith ymchwil ar lythyrau a ysgrifenwyd o'r Wladfa i berthnasau yng Nghymru. Mae'r cynnwys yn rhoi y syniad i ni fod y rhai a ymfudodd wedi setlo yno ond yn colli cael mwy o gysylltiad gyda y rhai oedd ar ôl yng Nghymru. Teimlent bod eu teuluoedd yng Nghymru wedi eu anghofio. Mae un llythyr yn gofyn am luniau, gwniaduron, cribau mân a llysiau llesol gan nad oedd dim meddyg ar gael yn y Wladfa. Roedd y llythyrau yn adlewyrchu bywyd yr ymfudwyr.



***Beryl Griffiths a Norma Lloyd Owen***

Tu mewn Rhagfyr_Tud 8 Mehefin.qxd 19/11/2015 16:01 Page 8



# NADOLIGAU LERPWL

gan D. Ben Rees

Yn y cyfnod 1870 i 1940, adeg penllanw'r Cymry Cymraeg yn Lerpwl, bu’r Nadolig yn Ŵyl hynod o bwysig. Bu’n Ŵyl y gweithgareddau mawr, diwylliant Cymraeg ar ei orau, cychwyniad y cardiau Cymraeg a bwrlwm y croesawu a’r anrhegu. Gofalai siopau mawr y Cymry fel T. J. Hughes yn London Road, Siop Owen Owen yn Clayton Square ddarparu yn helaeth heb anghofio siop Lewis a gaeodd eu drysau rai blynyddoedd yn ol bellach. Siop yr Iddewon oedd Siop Lewis ond penderfynodd sylfaenydd y siop David Levy newid ei enw i David Lewis er mwyn rhoddi hwb i’r gymuned Gymraeg i feddwl mai un o’u siopau nhw oedd hi! Haedda'r stori honno ymdriniaeth ar wahân ar dudalennau *yr Angor.*

Byddai tymor y Nadolig yn Lerpwl yn dechrau ar ôl Gŵyl Ddiolchgarwch yr Hydref, yn arbennig ym myd llyfrau Cymraeg. Wedi’r cyfan yn oes Fictoria bu gwasg Isaac Foulkes (Llyfrbryf, 1836-1904) yn darparu llyfrau hardd ar gyfer y Nadolig ac yn hysbysebu yn y papur wythnosol, Y Cymro, a gyhoeddid yn Paradise Street. Ar ôl Gwasg Foulkes daeth Gwasg fentrus arall, Gwasg y Brython. Dwy wasg a fu yn flaengar am dros gan mlynedd i baratoi llyfrau i’r Cymry adeg y Nadolig.

Yn Lerpwl yr ymddangosodd cardiau Cymraeg cyntaf erioed a hynny ar gyfer Nadolig 1909. Gelwid hwy yn gyfres y Cambrian a chynlluniwyd hwy yn arbennig ar gyfer y Cymry Cymraeg gan roddi sylw neilltuol i’r arwyddluniau cenedlaethol – y Ddraig Goch, Cenhinen Pedr a’r Cennin. Penderfynodd Hugh Evans, pennaeth Gwasg y Brython ac awdur y clasur *Cwm Eithin*, yn 1912 gyhoeddi ar raddfa helaethach fyth gardiau Nadolig Cymraeg gyda gwell diwyg na chynt a phob un cerdyn yn unigryw a hardd.

Penderfynwyd hefyd mentro a pharatoi cardiau preifat Nadolig am brisiau derbyniol i’r teuluoedd, cyfoethog, sef rhwng 1/9 a chwe swllt y dwsin. Roedd dosbarth canol y gymuned Gymraeg a phlant y dosbarth hwnnw fel J Saunders Lewis wrth eu bodd. Argraffwyd y cyfarchion yn ddwyieithog gan fod y drydedd genhedlaeth o blant yr adeiladwyr yn raddol golli eu gafael ar yr iaith oedd yn ffynnu yn y capeli a’r cymdeithasau. Byddai cerdyn dwyieithog yn addas iawn i’r anfon i’w ffrindiau a’u cydweithwyr yn y siopau a’r swyddfeydd. Darparwyd gan Wasg y Brython nifer fawr o flychau swllt yr un ac ynddynt gyfarchion Nadolig Cymraeg ar bapur arbennig wedi ei greu ym melin bapur enwog Afonwen, a saif ar y ffin rhwng Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

Teimlai Hugh Evans a’i feibion nad oedd gan unrhyw Gymro na Chymraes esgus o gwbl dros beidio anfon cardiau Nadolig i unrhyw ran o’r byd. Yn wir, darparai’r wasg fountain pen o’r gwneuthuriad gorau am dri swllt a chwpon o’r papur wythnosol, *Y Brython*, dyfais y *Daily Mail* ein dyddiau ni, er mwyn denu cwsmeriaid i’r cardiau.

Lluniodd y bardd telynegol R. H. Jones, Wallasey (a brodor o Uwchaled) bennill ar weithred newydd a phwysig Gwasg y Brython i werin Cymru:

*Dydd da, lythyr gludydd,*
*Mi dy welais o draw*
*Oes cardiau Nadolig*
*I mi yn dy law?*
*Wel, Saesneg yw’r rhain,*
*Cyn amled â’r gwlith,*
*O na, dyma gerdyn*
*Cymraeg yn eu plith.*

Ac yr oedd y diolch am hynny i’r tad a’r meibion a hysbysai ar hyd y degawdau yn niwedd Tachwedd gyda’r pennawd mewn llythrennau bras, Prynwch Lyfr Cymraeg yn Anrheg Eleni. Roedd ganddynt ddwy siop yn gwerthu llyfrau a chardiau Nadolig. Un yn Commerce Court (ger Lord Street) yng nghanol y ddinas a’r llall ger yr argraffdy yn 350-360 Stanley Road, Bootle. Yn y ffenestri hyn ceid cyflenwad o Galendrau Cymraeg (dyfais arall o’i heiddo), cardiau a llyfrau o bob math, yn arbennig nofelau Daniel Owen (oedd yn gwerthu’n dda fel anrheg Nadolig) i lyfrau Meuryn ac E. G. Breeze a John Pierce ar gyfer y to ifanc oedd yn dal i siarad Cymraeg, y rhai oedd yn llythrennol perthyn i ddau fyd. Yr oeddynt hwy wedi eu magu yn y bwrlwm Cymraeg a phenllanw'r flwyddyn iddynt fel plant oedd Parti Nadolig y Capeli a dyfodiad Siôn Corn. Diflannodd y disgwyliadau hyn o’n plith ers deg mlynedd pellach, trist yw cofnodi hynny. Ond rhoddid bri mawr hefyd ar gerddoriaeth yn yr wythnosau o flaen yr Ŵyl. Deil Undeb Gorawl Cymry Lerpwl i gynnal Noson o Garolau sydd yn llenwi Neuadd y Philharmonig (deil dwy fil o bobl) ar drothwy Nadolig 2015. Ond yn gynharach yn yr ugeinfed ganrif ceid llu o gyngherddau (o leiaf ugain ohonynt ar gyfartaledd) a pherfformiadau gan y corau a fodolai ar y Glannau, gyda’r uchafbwynt ar nos Nadolig yn un o neuaddau neu gapeli helaethaf Cymry Lerpwl. Ceid cyfle i wrando ar yr anfarwol denor o Gwm Tawe, Ben Davies, Annie Davies-Wynne, y gontralto o Benrhyndeudraeth, Evan Lewis, y tenor a’i wraig, Josephine, contralto o Fangor; Mary King Sarah, soprano o Lanrug; Harri Lewis, tenor; a David Chubb, bâs; a llawer o gantorion gwych eraill y gwelais eu henwau yn yr hysbysebion. Hwy oedd yn cynnal y Nadolig i Gymry Lerpwl a’r adeilad a ddaliai gannoedd yn orlawn. Y bore hwnnw, sef bore’r Ŵyl, byddai oedfaon wedi eu cynnal yn y mwyafrif o’r capeli a’r eglwysi (o leiaf 90 o ganolfannau ar y Glannau) a’r man drefi o amgylch fel Runcorn ac Ellesmere Port.

Ond i lawer un uchafbwynt y Nadolig oedd Eisteddfod Boxing Day yng Nghapel (MC), Woodchurch Road, Penbedw. Deuai'r tyrfaoedd o bob ochr i’r afon Merswy nes gorlenwi’r capeli a’r cystadleuwyr o Fôn i Faldwyn. Gorlenwid yr adeilad nes bod y muriau yn llifo o afonydd chwys y gynulleidfa!

Eisteddfod oedd hon oedd yn parhau am bump i chwe awr solet, a phlant yr alltudion, yn rhyfeddu bob blwyddyn at leisiau cyfoethog y cantorion a chof anhygoel yr adroddwyr o’r ‘hen wlad’. Sonia Jennie Thomas, a wnaeth gymwynas fawr â phlant Cymru, amdani hi a’i chwaer Megan, yn rhyfeddu at y wledd. Dyma’i geiriau:

Dyna i chi ddoniau a ddeuai yno i gystadlu. Griff Owen, y tenor, yn canu’r ‘Hen Gerddor’ nes gwefreiddio’r dyrfa, a D. R. Jones, y bariton, yn herio pobl Môn yn yr ‘Ornest’, a’r mymryn papur hwnnw rhwng ei fysedd, a’r ddau wedyn yn sgubo popeth o’u blaenau, gyda’r ddeuawd.

Atyniad mawr yr Eisteddfod i bawb oedd yr arweinydd ‘Creigfab’, sef y Parch T. J. Williams, Rock Ferry. Adroddodd Trevor Jones (ewythr Marion Eames) lawer stori wrthyf amdano, ac yn arbennig pan ofynnodd unawdydd am ganiatâd i ganu ynghynt am ei fod eisiau mynd adref hefo’r ‘mail’. Wrth gyflwyno ei achos i’r gynulleidfa, dyma Creigfab yn gwneud y sylw gwreiddiol: ‘Felly y mae o hyd: rhai eisiau mynd adre, efo’r ‘mail’ ac eraill efo’r “fe-male”!’ Banllefau o gymeradwyaeth haeddiannol iddo gan ei edmygwyr. Dyma’r hiwmor oedd yn plesio yn y dyddiau hynny ynghanol miri a diniweidrwydd Cymry glân gloyw mewn oes llawer mwy hamddenol na’n hoes ni! Ysgrifennodd un a fu ynghanol miri’r Nadolig yn Lerpwl bennill sy’n costrelu llawenydd yr Ŵyl i bob plentyn, ddoe a heddiw:

*Ar ganol bwrdd y parlwr*
*Fe dyf y goeden hardd,*
*Ac arni ffrwyth nas gwelwyd*
*Ar un o brennau’r ardd;*
*Mae yno farch a modur,*
*A chi, a llong, a thrên,*
*A doli fawr las-lygad,*
*Balŵn ac eroplên.*

***Darn o Hunangofiant Brian Thomas***

# FY NGYRFA FEL ATHRO YN LERPWL



## Pennod 4
## Profiadau Canolfan New Heys

*Prifathro Mr. Alec Orr* – Wel dyna sioc i fy sustem nerfol oedd cael symud i New Heys, sy'n sefyll rhwng Allerton a Garston yn Ne Lerpwl. Os oedd plant Queenie yn anodd eu trin, roedd rhain yn saith gwaeth. Plant oeddynt o bob oed i fyny at un a'r bymtheg, a oedd wedi cael eu cymryd i ofal y Wladwriaeth drwy'r llysoedd a Deddfau Plant. Trwy orchymyn y Llys, roeddynt wedi cael eu rhoi mewn cartref diogel i wneud yn siwr eu bod yn cael eu gwarchod yn well. Roedd hanes arswydus difrifol i bob un ohonynt. Roeddynt wedi cael eu treisio neu eu brifo yn ddrwg yn eu cartrefi, ac nid oeddynt i gael cysylltiad gyda neb o'u cefndir, ond trwy ganiatad y llys, a hynny trwy drefniant y Gwasanaeth Cymdeithasol. Felly gallwch ddallt fod y plant yma wedi cael cam mawr yn barod yn eu bywydau byr.

Byddwn yn mynd i'r ysgol yn y bore ac yn ôl fy arfer yn dweud 'Good morning' wrth y plant, a'r ateb a gawn yma yn amlach na dim fyddai "....... off, you". Roedd yn rhaid derbyn y fath ymateb, canys roedd y driniaeth o gael ateb call, caredig oddiwrthynt yn mynd i gymeryd amser. Y nôd oedd ceisio dangos fod hi'n bosibl bod yn ffrindiau heb fod eisiau dim, a heb agenda i gymeryd mantais ohonynt na'u brifo na'u treisio. Dyna oedd y patrwm ran amlaf yn eu cefndir. Bu neb yn ffeind wrthynt, os nad oedd a angen rhywbeth yn ôl. Felly y bu o ddiwrnod i ddiwrnod, perthynas afreal, yn cael fy ngheryddu am y rheswm lleiaf. Dal i orfod cymeryd y cerydd, heb daro'n ôl. Roedd hyn yn tynnu fy hunan barch a'm hyder yn ddeilchion, ac yn cael effaith ar fy amynedd innau yn y cartref. Byddwn yn flin hefo fy mhriod Hilda am y peth lleiaf. Mewn dim o amser roedd yn gas gennyf y swydd, ac yn tybio fy mod wedi gwneud camgymeriad mawr yn fy newis o'r gwaith. A minnau'n o'r blaen wedi meddwl fy mod yn athro difai, ac yn meddu ar ychydig o feddwl ohonof fy hun! Cael ar ddeall yn ddyddiol gan fy nisgyblion nad oeddwn yn dda i ddim. Byddwn yn dod adref bob dydd i gael fy nghinio, ac yn aml ddim yn teimlo fel mynd yn ôl o gwbl at y prynhawn. Ond, fel yr oeddwn yn araf deg yn cael amser i ddarllen dogfennau dirgel y plant, a chraffu ar hanes eu bywydau anhapus, anffortunus, deuthum i ddeall yn well, a meddwl sut y buaswn i yn teimlo pe bawb yn gorfod dygymod a ffasiwn fryntni yn nyddiau cynnar fy oes. A minnau wedi cael cefndir mor hapus ym Mhenmachno yn fy more oes fy hun. Wedi cael magwraeth mor gefnogol a chariadus ar aelwyd fy nheulu. Sut y buaswn i yn byhafio pe bawn wedi cael cefndir tebyg iddynt hwy? Deuthum i ddeallt yn araf bach paham yr oeddynt yn byhafio mor annifyr o ddrwg. Merch fach bump oed, ie pump oed, a'i thad ei hun, oedd yn dreifio loriau, yn mynd a hi hefo fo, ac yn ei rhannu allan i gael ei thresio, am arian, gan ddreifars loriau eraill. Merch unarddeg, oedd yn gweithio fel putain ar y stryd gyda'i mam. Bachgen deg oed, oedd yn cael ergydion yn ddyddiol gan ei dad, a hwnnw wedi malu aml i asgwrn iddo cyn i neb sylweddoli nad damweiniau oedd yr achos. Roedd bachgen arall naw oed yn fy Nosbarth wedi mynd a phlentyn chwech oed gydag ef i rhyw gwt, ac wedi gwthio procer i fyny ei ben ôl, wedi ei frifo yn ddifrifol a bron wedi ei ladd. Lwc fod rhywun yn ymyl wedi clywed ei sgrechian. Da chi'n cofio hanes Mary Bell? Bachgen arall, golygus dros ben a gwên braf bob amser ar ei wyneb, oedd Philip, ac un diwrnod aeth ati i gau dau fachgen mewn sied ac wedyn gosod tân ar y sied, ac yn cael hwyl fawr yn gweld y sied yn llosgi. Byddwn yn aml yn darllen yr hanesion cudd yma, a dagrau yn powlio'i lawr fy ngwyneb. Yn araf deg deuthum i edmygu rhai o'r plant yn New Heys, yn hytrach na'u beirniadu fel yr oedd hi'n hawdd.

Erfyn oeddynt am fywyd cyffredin, ond yn gorfod byw mewn byd brwnt a chwantus. Ond roedd treiglad amser yn pasio'n rhy sydyn o lawer i athro lwyddo adnewyddu ei bywydau. Roedd amser a'r byd yn eu herbyn. Y cwbl oeddem yn gallu ei wneud oedd dangos fod rhai oedolion yn gallu eu hoffi heb fod angen dim byd amgenach oddi wrthynt.

Ac yn dorcalonnus ichwi y gwir ydyw fod Dinas Lerpwl wedi gorfod cau y gwasanaeth penodol yma yn y diwedd. Nid oherwydd nad oedd ganddynt ddigon o arian i'w gynnal, ond am fod rhai o'r plant druan wedi cael eu treisio'n ychwanegol yn y tŷ gofal, gan y rhai oedd i fod i'w gwarchod a'u cadw yn saff. Pa obaith oedd i'r plant druan. A'r dyddiau yma byddaf yn crïo chwaneg, pan yn darllen fod treisio yn mynd ymlaen, drwy'r wlad yn gyffredinol, o Rotherham i Rydychen, o Rochdale i Wrecsam.

Ar ôl tair blynedd yno symudais unwaith eto. Cefais fy 'head huntio'r' tro yma! Ond cyn datgelu yr hanes hynny, mae ychydig o eglurhad am drefn Addysg yn y wlad yr ydym yn byw ynddi.

Yn 1970 pasiwyd Deddf Addysg, y bwysicaf er 1944, pan basiodd Harold Wilson ddeddf yn gorfodi fod holl blant y wlad i gael addysg mewn ysgol. Fel yr eglurais o'r blaen yn yr atgofion hyn roedd plant Prydain yn cael eu mesur wrth eu I.Q. 100 i fod gyfartal. Roedd plant ag I.Q. o dan 75 yn cael eu galw yn 'ineducable' a phlant ac I.Q o 75 i 100 i gael eu haddysg mewn Ysgolion Arbennig. Roedd y plant ac I.Q. o dan 75 yn cael eu 'gwarchod' mewn 'Canolfannau Hyfforddiant' o dan reolaeth y byd Meddygol. Roedd rhai canolfannau i blant o dan 16 oed a rhai i oedolion dros 16 oed. Roedd pump ohonynt yn ninas Lerpwl. Yn ddisymwth newidiodd y byd ac roedd yn rhaid sefydlu Ysgolion newydd i gwrdd ac anghenion y plant yma. Cefais fy ngwahodd i fynd yn ddiprwy brifathro ar un o'r ysgolion hyn, i gyd weithio a Mr. W. Arrowsmith-Roberts, y prifathro roeddwn wedi gweithio gydag ef yn Queensland Street, Wavertree. Gofynnodd amdanaf i gyd-weithio ac ef i sefydlu ysgol newydd i geisio cwrdd ac anghenion dwys y plant mwyaf methedig ar lannau Merswy. Roeddwn i sefydlu yr ysgol ar dir Ysbyty Olive Mount, a thir Ysbyty Rathbone yn Wavertree. Roedd llawer o'r plant wedi bod yn yr ysbyty ar hyd eu bywyd bron, a rhai ohonynt erioed wedi cael codi o'u gwlâu. Roedd rhan helaeth ohonynt ddim yn gallu siarad, yn 'non verbal' meddai'r arbenigwyr. Y gwir plaen oedd nad oedd nemor neb wedi trafferthu i siarad â hwy o gwbl. A'n gwaith ni ein dau oedd eu sefydlu ym myd addysg. Ein gwaith ni mewn geiriau eraill oedd cwrdd a'u hangenion addysgol, beth bynnag a fyddent. Y Fam yw athrawes cyntaf pob plentyn, ac mae'r rhan fwyaf o'r mamau wedi dysgu mwy i'w plant, cyn iddynt fynd i'r ysgol, na wnaiff yr un athrawes arall. Gwaith yr ysgol yw cario 'mlaen lle mae'r fam wedi cyrraedd, ac ehangu gorwelion a'i doniau a'i galluoedd naturiol. Mae pob plentyn yn unigryw a photensial mawr ym mhob un.

*(i'w barhau)*

Tu mewn Rhagfyr_Tud 8 Mehefin.qxd 19/11/2015 16:01 Page 10

Cofio'r Eluseannu

# *Siec i 'Gafael Llaw'*



Pleser oedd cael cyflwyno siec am £320 tuag at waith yr elusen 'Gafael llaw' i Trystan Gwilym, Ysgrifennydd, ac Iwan Trefor Jones, Cadeirydd. Dyma rhan o'r elw o Gystadleuaeth Golff Cymry Lerpwl a gynhaliwyd ym mis Medi. Sefydlwyd yr elusen ym mis Mehefin 2013 i gynorthwyo plant yn eu brwydr yn erbyn cancr. Mae'r holl arian yn mynd i Ward Dewi, Ysbyty Gwynedd; Ysbyty Alder Hey a'r elusen gancr Clic Sargent.
Bydd £300 arall yn mynd i Apêl ***'Home from Home',*** Canolfan Niwrolegol Ysbyty Walton sydd yn cynnal llety yn yr ysbyty ar gyfer teuluoedd cleifion sydd yn derbyn triniaeth yn y Ganolfan.

## Apêl tuag at Ysbyty H. Gordon Roberts yn Shillong yr India

Neilltuwyd Sul 20 Rhagfyr yng nghapel Bethel, Heathfield Road, Lerpwl yn Sul i godi arian i Apêl y Parchg. Trefor Lewis, Hen Golwyn tuag at anghenion Ysbyty Genhadol Dr. H. Gordon Roberts yn Shillong sydd yn dathlu yn y flwyddyn 2022 ganmlwyddiant. Y mae Dr. D. Ben Rees yn paratoi Cyfrol Saesneg ar Dr. H. Gordon Roberts, *Healer of Shillong* ac aiff yr holl arian o werthiant y gyfrol tuag at yr Ysbyty ond ni fydd y gyfrol yn barod hyd mis Mawrth 2016.

Gan fod Apêl y Llywydd yn cau'r llyfrau ddiwedd 2015 y mae'n ofynnol inni godi arian eleni, a gosododd Cyngor yr Eglwys ar 19-10-2015 y nod o £1,000. Er mwyn cyrraedd y nod hwn bwriadwn

i) Ar Nos Lun, Rhagfyr 7 cael Noson Shillong pryd y bydd Dr. Rees a Dr. J. G. Willams yn cyflwyno'r cefndir, gwaith arloesol Dr. H. Gordon Roberts a Dr. Arthur Hughes trwy gyflwyniad *powerpoint*. Byddwn yn codi arian y noson honno ac yn cyflwyno gwybodaeth am yr angen mawr yn Shillong

ii) Ar fore Sul, Rhagfyr 20 cawn ein harwain i Fethlehem gan Mrs Anne M. Jones, Mrs Margaret Anwyl Williams a Mr. R. Ifor Griffith ar lwybr y carolau. Ar ddiwedd yr oedfa darperir lluniaeth ysgafn a chyfle inni gyfrannu i'r Gronfa eto trwy ddull yr amlenni gan fe aiff y casgliad gyda help *Gift Aid* trwy lyfrau'r Eglwys am 2015

Gan fod Dr. H. Gordon Roberts yn enedigol o Lerpwl a'i olynydd Dr. R. Arthur Hughes wedi gwasanaethu Eglwys Bethel mor egnïol y mae'n bwysig ein bod yn ymateb yn haelionus. Eisoes penderfynodd Eglwysi Bethania a Seion, Laird Street gyfrannu yn haelionus. Cawn wybod yn yr *Angor* nesaf yr hanes o dan benawd Eglwys Bethel, Heathfield Road.




*Welwyn Garden City,*
*Swydd Hertford*
*SAL7*
*19/10/15*

*Annwyl Olygydd,*

Yr wyf am gofio eich Cronfa gan na wnaethum hynny ers peth amser gan fy mod yn mwynhau yn fawr y copi o'r *Angor* a ddaw ataf.

*Yr eiddoch yn ddidwyll,*
*Beryl M. Jones*

## Cystadleuaeth Tomi

***(Mynd Drot Dro i'r Dre …)***
***o rifyn Tachwedd 2015 o'r Angor***
***(tudalen 7)***

Diolch i'r dair wraig a anfonodd y neges yn gywir a chyflawn o fewn chwinciad llygad. Y buddugol ydyw Mrs Betty Lockyer, Betws Bledrws ger Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. Daeth y papur neges i Allerton cyn y ddau ymgais arall. Llongyfarchiadau.

## *Cri y Cardi*

Di don y bae wrth dir Tanbwlch sy'n crwydro,
Mi wn am un a gâr dy ddwndwr di
A llawer oed nad yw hyd heno'n ango
A dreuliwyd gynt wrth drai a llanw dy li;
Onid oes groeso imi ganu 'nghwynion
Ni chedwir hoffter cynnar un yn gaeth,
Rhy anodd yw anghofio Ceredigion,
Ei mynydd unig – ei byddarol draeth.



## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes newyddiaduriaeth Cymraeg 2015. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

**• RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

i) **Rhifyn Chwefror 2016 –** erbyn bore Sadwrn, 2 Ionawr, 2016 – neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive. fsnet.co.uk

ii) **Rhifyn Mawrth 2016** – erbyn bore Sadwrn, 30 Ionawr, 2016 – y lluniau, adroddiadau etc.

iii) **Rhifyn Ebrill 2016 –** erbyn bore Sadwrn, 27 Chwefror, 2016 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn ar 29 Chwefror, 2016.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk
- **Pwyllgor Gwaith nesaf** – ar lein (BT), pnawn Llun, 11 Ionawr 2016 am 2.30 o'r gloch.

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15. Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

Cymraeg

**A fuasech yn hoffi dysgu Cymraeg?**
**A ydych yn dysgu ar hyn o bryd?**
***Would you like to learn Welsh?***
***Are you already trying to learn?***

Dewch i'r cyfarfod ar Nos Lun, Ionawr 11, 2016 am 7.30 pryd y lawnsir grwp i astudio'r Gymraeg. Ei bwrpas yw cynnal fforwm lle gall pobl sy'n dysgu y Gymraeg i gyfarfod a chefnogi ei gilydd.
Croeso i bawb, o ddysgwyr di-brofiad i'r rhai profiadol. Bwriadwn gyfarfod yn wythnosol.
Bydd Diwrnodau Dysgu gyda tiwtor Cymraeg yn cael eu trefnu os bydd digon o ddiddordeb.
Bydd y cyfarfod agoriadol yng Nghanolfan y Cymry, Capel Bethel, Auckland Road, L18 0HX.
Yna bydd grwp newydd yn cyfarfod yng Nghapel Bethel ar yr un amser bob nos Lun.
Cysylltwch os oes diddordeb neu am wybodaeth ychwanegol, ysgrifenwch at: benatgarthdrive@talktalk.net

Come to a meeting at 7:30 pm on Monday 11th January 2016 at which a new Welsh study and conversation group is to be launched. Its aim will be to provide a forum where people who are learning Welsh can find mutual support and encouragement.
All are welcome, from complete beginners to experienced learners. We plan to meet weekly, in order to help each other with learning materials, advice, and Welsh conversation practice.
Study days with a Welsh tutor will also be arranged as and when there is sufficient demand.
The initial meeting will be at: Liverpool Welsh Centre
Capel Bethel, Auckland Road, L18 0HX
Thereafter, the new group will meet at Capel Bethel at the same time on every Monday evening.

If you are interesting in joining us or would like any further information in advance of the meeting on 11th January, then please write to:
benatgarthdrive@talktalk.net

Cymraeg

**O bydded i'r hen iaith barhau!**


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

Tu mewn Rhagfyr_Tud 8 Mehefin.qxd 19/11/2015 16:01 Page 12

# HOSAN NADOLIG CYMRY LERPWL



*Diolchgarwch yn y Cynhaeaf (2015)*




*Coffi wedi'r Oedfa Diolchgarwch yng nghapel Bethel, Lerpwl*




*Nan a Parch Gwenda Richards, Caernarfon yn y Ganolfan*



*Gari Owen 'Taro Post' yn holi Alun Davies (Woolton) adeg Cofio Tryweryn*


**STORI CAPEL WAENGOLEUGOED**
**Gol. Mari Lloyd-Williams**
**Hanes y capel wrth iddo ddathlu dancanmlwyddiant yr achos yn ardal Llanelwy**
9780901332974
Cyhoeddiadau Modern Cymreig




**DI-BEN-DRAW**
D. Ben Rees

Hunangofiant y gweinidog sydd wedi cyfrannu'n fawr at fywyd Lerpwl a Chymru

£9.99

9781784611866
Y Lolfa